# Polisi Codi Tâl am Wasanaethau Arbennig yr Heddlu

| | |
|---|---|
| **Crynodeb o'r polisi:** | ***Mae'r polisi hwn yn nodi'r egwyddorion, y llywodraethiant, a'r prosesau y mae Heddlu Dyfed-Powys a'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu (CHTh) yn eu defnyddio i godi tâl am wasanaethau arbennig y heddlu.*** |
| **Rhif y polisi:** | **006/2026** |
| **Rheoli fersiynau:** | ***Fersiwn 3.0***<br>***Dyddiad:*** *25/06/2026*<br>***Awdur:*** *G James*<br>***Sail rhesymegol:*** *Fersiwn gyntaf*<br>***Mae manylion rheoli fersiynau llawn ar gael yma.*** |
| **Dyddiad gweithredu:** | **25 Mehefin 2026** |
| **Dyddiad adolygu:** | ***Yn flynyddol, neu wrth i ganllawiau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu gael eu diweddaru*** |
| **Perchennog / cyswllt:** | ***Prif Swyddog Ariannol, Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys;***<br>***Cyfarwyddwr Cyllid, Heddlu Dyfed-Powys*** |
| **Cymeradwyaeth** | ***Y Bwrdd: Bwrdd Gweithredol y CHTh***<br>***Dyddiad cymeradwyo: 26 Mai 2026*** |
| **Cymeradwyaeth derfynol** | ***Y Bwrdd: Bwrdd Strategol Cyllid a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC)***<br>***Dyddiad cymeradwyo: 25 Mehefin 2026*** |
| **Ymgynghori a chymeradwyo** | ***Anfonwyd neges e-bost ymgynghori i swyddogion/staff o'r timau canlynol: Cyllid, Gweithrediadau Arbenigol, Gwasanaethau Cyfreithiol, Ystadau, Ffederasiwn yr Heddlu, Unsain, Pobl a Datblygu Sefydliadol, Grŵp Prif Swyddogion, Uned Gwella Gwasanaethau, TGCh, Fflyd, Cyfathrebu Corfforaethol, yr Adran Ymchwilio i Droseddau, Caffael, yr Adran Safonau Proffesiynol, ac Adolygiad yr Heddlu.*** |
| **Cyfieithiad Saesneg** | ***Oes - mae'r ddogfen hon ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg*** |

# 1. Datganiad polisi

Darperir plismona yn bennaf fel gwasanaeth cyhoeddus, a ariennir yn bennaf gan drethi cenedlaethol a lleol. Fodd bynnag, mae yna hefyd rai swyddogaethau a gyflawnir sydd y tu hwnt i ddyletswydd gyhoeddus gyffredin, pan fo'n briodol i Heddlu Dyfed-Powys godi tâl ar unigolion neu sefydliadau i adennill costau.

Mewn meysydd eraill, mae cyfleoedd i Heddlu Dyfed-Powys ddarparu nwyddau neu wasanaethau sy'n berthnasol i rolau a sgiliau plismona penodol.

Mae sicrhau bod taliadau'n cael eu codi'n effeithiol mewn amgylchiadau o'r fath yn amddiffyn y ddarpariaeth heddlu gyhoeddus ac yn cyfrannu at gyllid cyffredinol y gwasanaeth. Mae'r polisi hwn yn ystyried y gofynion ar gyfer stiwardiaeth arian cyhoeddus.

Bwriad y polisi hwn yw sicrhau cysondeb lle bynnag y bo modd ac i sicrhau hygrededd a hyder yn y broses codi tâl ac i sicrhau bod y broses o adfer costau ar draws y gwasanaeth yn briodol ac nid yw'n cael ei thanseilio.

Mae'r polisi hwn yn seiliedig ar y canllawiau a ddarparwyd gan Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu yn eu dogfennau am ganllawiau cenedlaethol ar godi tâl am wasanaethau'r heddlu: *National Policing Guidelines on Charging for Police Services: Special Police Services* a *National Policing Guidelines on Charging for Police Services: General.* Cyfeirir at y dogfennau hyn drwy gydol y polisi hwn fel "y Canllawiau".

Mae Canllawiau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu yn darparu'r rhesymeg y tu ôl i'r angen i godi tâl ar unigolion a chyrff am rai gwasanaethau arbennig yr heddlu ac felly nid yw'r rhesymau hynny'n cael eu hailadrodd yng nghorff y polisi hwn. Mae'r polisi hwn yn amlinellu sut mae'r canllawiau a ddarperir yn cael eu gweithredu yn Heddlu Dyfed-Powys.

Mae'r polisi hwn yn berthnasol i unrhyw berson sy'n gofyn am ddarparu gwasanaethau arbennig yr heddlu (er enghraifft mewn digwyddiad); mae tri dosbarthiad o ddigwyddiadau, yn benodol:

a. Digwyddiadau masnachol, sydd â'r bwriad o gynhyrchu elw preifat;
b. Digwyddiadau anfasnachol, h.y. digwyddiadau elusennol neu gymunedol;
c. Digwyddiadau statudol sy'n adlewyrchu hawliau neu brosesau cyfansoddiadol.

***Hefyd yn berthnasol (ond heb fod yn gyfyngedig) i'r canlynol:*** *Pob categori o swyddogion a staff Heddlu Dyfed-Powys, boed yn weithwyr amser llawn, rhan amser, parhaol, cyfnod penodol neu dros dro (gan gynnwys staff asiantaeth, partneriaid a chontractwyr), neu staff ar secondiad a gwirfoddolwyr. Rhaid i swyddogion heddlu, staff a gwirfoddolwyr sy'n cyrchu a defnyddio asedau ac eiddo'r heddlu roi sylw dyledus i gynnwys y polisi hwn.*

# 2. Cwmpas y polisi

Gwasanaethau plismona a ddarperir ar gais unigolyn neu sefydliad yw gwasanaethau arbennig yr heddlu ac nid ydynt yn rhan o rwymedigaeth yr heddlu i ddarparu plismona i'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae enghreifftiau'n cynnwys plismona digwyddiadau, ffilmio masnachol, a hebrwng llwythi annormal.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio'r egwyddorion canlynol:

- Peidio â chodi tâl am ddyletswyddau plismona craidd
- Mae taliadau'n seiliedig ar adfer costau'n llawn, nid elw
- Mae penderfyniadau codi tâl yn deg, yn gyson, ac yn gymesur
- Ni ddylai gwasanaethau cynhyrchu incwm danseilio hyder y cyhoedd
- Ystyrir cydraddoldeb, hygyrchedd, a chyd-destun cymunedol Cymru ym mhob penderfyniad ynghylch codi tâl.

Nid yw'r heddlu'n codi tâl am y canlynol:

- Atal, canfod, ac ymchwilio i droseddau
- Plismona trefn gyhoeddus pan fo'r heddlu'n penderfynu ei bod yn angenrheidiol
- Ymateb mewn argyfwng a dyletswyddau plismona statudol

Mae'r gweithgareddau hyn yn cael eu hariannu drwy grant cyhoeddus a phraesept ac nid yw pwerau adfer incwm yn berthnasol iddynt.

**<u>Ceisiadau am wasanaethau arbennig yr heddlu</u>**

Bydd ceisiadau am wasanaethau arbennig y heddlu:

- Yn cael eu hasesu'n ffurfiol gan ddefnyddio proses risg ac angenrheidrwydd wedi'i dogfennu
- Yn ystyried bygythiad, niwed, risg, ac effaith gymunedol
- Yn parhau i fod yn ddarostyngedig i farn weithredol y Prif Gwnstabl

Ni ellir trin plismona sy'n ofynnol wrth gyflawni dyletswyddau statudol fel gwasanaeth arbennig yr heddlu.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn defnyddio methodolegau codi tâl cenedlaethol Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, fel yr amlinellir yn y Canllawiau.

Argymhellir yn gryf codi cost economaidd llawn ar gyfer gwasanaethau arbennig yr heddlu a ddarperir ar gyfer digwyddiadau masnachol. Mae'n hanfodol bod y dull hwn yn cael ei fabwysiadu'n gyson ledled y wlad er mwyn sicrhau nad yw adferiad dilys costau'r heddlu yn cael ei danseilio. Dim ond ar sail eithriadol, a chyda chymeradwyaeth benodol CHTh y dylid gwneud unrhyw wyriad o'r egwyddor hon.

Gellir gweld manylion am lefelau cymeradwyo o fewn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol: https://www.dyfedpowys-pcc.org.uk/cy/cyllid/polisiau-ariannol/

**Codi tâl am ddigwyddiadau a gostyngiadau**

Dylid costio plismona pob digwyddiad yn y lle cyntaf ar sail cost economaidd lawn yn unol â chyfraddau gwasanaethau arbennig yr heddlu cenedlaethol sydd wedi'u hymgorffori yng Nghanllawiau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. Mae'r Canllawiau'n darparu atodiadau a chyfraddau penodol fesul rheng swyddogion yr heddlu/swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu; mae defnyddio'r cyfraddau hyn yn sicrhau dull cyson ar draws heddluoedd, gan roi mwy o sicrwydd i'r sefydliadau hynny sy'n ceisio ymgysylltu â heddlu mewn gweithgaredd y gellir codi tâl amdano.

Mae'r dull a gymerwyd gan Heddlu Dyfed-Powys a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yn cynnwys cymhwyso un o'r tair categori canlynol i bob digwyddiad:

1. Cost economaidd llawn – sefyllfa ddiofyn ar gyfer gwasanaethau plismona arbennig.
2. Cyfanswm y gost uniongyrchol – digwyddiadau anfasnachol, megis digwyddiadau cymunedol awdurdodau lleol, gorymdeithiau crefyddol, a digwyddiadau cwbl elusennol.
3. Ni ellir codi tâl – digwyddiadau statudol neu gyfansoddiadol.

Mae hyn yn gwneud unrhyw asesiad codi tâl yn symlach, yn fwy tryloyw, ac yn haws i gwsmeriaid a heddluoedd ei ddeall.

Ar gyfer digwyddiadau statudol, megis gorymdeithiau Dydd y Cofio, digwyddiadau Jiwbilî neu gyfansoddiadol, mae presenoldeb yr heddlu yn aml yn rhan o ddyletswyddau blynyddol arferol yr heddlu ac ni chodir tâl ar eu cyfer.

Ar gyfer digwyddiadau anfasnachol, megis digwyddiadau cymunedol awdurdodau lleol, gorymdeithiau crefyddol, a digwyddiadau elusennol yn unig, mae heddluoedd yn aml yn codi tâl ar gyfer cost uniongyrchol plismona'r digwyddiad.

Dyma’r costau y gall gwasanaeth yr heddlu eu hadennill:

- Cost cyflogadwy: Mae hyn yn cynrychioli cost wirioneddol sylfaenol y darparwyr gwasanaeth, gan gynnwys argostau ond heb unrhyw lwfans ar gyfer adennill gorbenion;
- Costau uniongyrchol: Dyma gost swyddog gan gynnwys yr elfen adferiad goramser safonol;
- Cost adnoddau gweithredol: Mae hyn yn cynrychioli cost yr adnodd a ddefnyddir i ddarparu'r gwasanaeth. Yma, mae'r costau uniongyrchol a'r gorbenion uniongyrchol wedi'u cynnwys;
- Cost economaidd llawn: Mae'r cyfrifiad hwn yn cynnwys yr holl gostau y gellir eu priodoli'n briodol, gan gynnwys cyfraniadau at gostau gweinyddol a chostau cyffredinol anuniongyrchol. Fodd bynnag, rhaid i'r adferiad gorbenion anuniongyrchol hwn fod yn gysylltiedig â'r sylfaen gorbenion berthnasol.

Mae Heddlu Dyfed-Powys a Chomisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys wedi mabwysiadu'n llawn y methodolegau codi tâl sydd wedi'u cynnwys yng Nghanllawiau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu. Anfonebir taliadau ymlaen llaw pan fo'n briodol a byddant yn cynnwys darpariaethau ar gyfer canslo a pheidio â thalu.

Mae'r polisi'n caniatáu lleihau neu ostwng costau pan fo’r digwyddiad yn elusennol, ar gyfer y gymuned, neu'n anfasnachol, neu pan fyddai codi tâl yn tanseilio hyder y gymuned/pan fyddai budd clir i'r cyhoedd.

Rhaid cymeradwyo pob gostyngiad ar lefel uwch briodol a rhaid iddo gael ei ddogfennu a bod yn archwiliadwy. Rhaid i daliadau a godir sy’n cael eu gostwng hefyd gyd-fynd ag egwyddorion cydraddoldeb a thegwch.

Caiff yr incwm a gynhyrchir ei reoli yn unol â'r Cyd-fframwaith Llywodraethu Corfforaethol a chaiff ei gofnodi, ei fonitro, a chyflwyno adroddiadau amdano yn dryloyw. Mae hefyd yn cyfrannu at ddiogelu plismona rheng flaen a gwerth am arian.

Mae trefniadau adennill dyledion, anfonebu, ac archwilio yn dilyn gweithdrefnau ariannol a gymeradwywyd gan CHTh.

# 3. Pwerau a pholisi / gofynion cyfreithiol

Gwasanaeth yn ôl disgresiwn yw hwn, a dylid gwneud unrhyw gais gyda rhybudd rhesymol, a dylai fod yn ffurfiol ac yn ysgrifenedig. Cedwir yr hawl gan Heddlu Dyfed-Powys i wrthwynebu unrhyw ddigwyddiadau a'r hawl i beidio â darparu ei adnoddau.

Mae'r polisi hwn wedi'i danategu gan y canlynol:

- Adran 25 o Ddeddf yr Heddlu 1996 (fel y'i diwygiwyd)
- Adran 15 o Ddeddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011
- Deddf Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) 1970 (fel y'i cymhwysir i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu)
- Cyfraith achosion berthnasol sy'n gwahaniaethu plismona craidd oddi wrth wasanaethau y codir tâl amdanynt (fel yr amlinellir yn y Canllawiau)

Mae'r polisi hwn yn mabwysiadu Canllawiau Plismona Cenedlaethol Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ar godi tâl am wasanaethau'r heddlu: gwasanaethau heddlu cyffredinol ac arbennig fel y dehongliad awdurdodol o'r pwerau hyn.

Er mwyn sicrhau cysondeb, rhaid defnyddio'r dogfennau canlynol ar y cyd â'r ddogfen hon:

- Y Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol
- Canllawiau Plismona Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu ar Godi Tâl am Wasanaethau'r Heddlu

Mae'r polisïau presennol canlynol yn arbennig o berthnasol a rhaid eu darllen ochr yn ochr â'r polisi hwn:

- Polisi Gwrth-dwyll a Llygredigaeth
- Polisi Buddiannau Busnes, Cyflogaeth Eilaidd, a Dyletswyddau Gwirfoddol/Cyhoeddus
- Polisi Rhyddid Gwybodaeth
- Polisïau Rheoli Asedau Gwybodaeth a Diogelu Data
- Polisi Caffael

Mae gweithdrefnau gweithredol yn rhan o'r polisi hwn ac yn cyd-fynd â fframwaith polisi ehangach Heddlu Dyfed-Powys.

# 4. Opsiynau a chynlluniau wrth gefn

<u>**Comisiynydd Heddlu a Throseddu**</u>

Yn unol â'r Cyd-fframwaith Llywodraethu Corfforaethol, mae CHTh yn gyfrifol am y canlynol:

- Gosod y fframwaith strategol ar gyfer cynhyrchu incwm
- Sicrhau bod casglu incwm yn cefnogi cynaliadwyedd a gwerth am arian
- Cymeradwyo polisïau a ffioedd codi tâl
- Dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif am reolaeth ariannol

Mae incwm yn elfen benodol o gyfrifoldebau stiwardiaeth ariannol y CHTh o dan adran 10.2 (Incwm) o'r fframwaith llywodraethu.

**Y Prif Gwnstabl**

Mae'r Prif Gwnstabl yn cadw:

- Annibyniaeth weithredol
- Yr awdurdod i wneud penderfyniadau ynghylch a oes angen plismona er budd y cyhoedd
- Cyfrifoldeb am ddarparu gwasanaethau o fewn y fframwaith codi tâl

Ni chaiff unrhyw benderfyniad ynghylch codi tâl beryglu annibyniaeth plismona gweithredol.

# 5. Gweithredu ac adolygu

Yn seiliedig ar asesiad risg digonol, gellir pennu lefel adnoddau'r heddlu ar gyfer pob digwyddiad. Fel arfer, cyflawnir hyn drwy gyfathrebu'n uniongyrchol â threfnydd y digwyddiad a chaiff ei drafod yn fewnol mewn cyfarfodydd trwyddedu ac adolygu digwyddiadau, neu gyfarfodydd penodol i'r digwyddiad.

Adolygir y polisi hwn yn flynyddol, neu pan fydd canllawiau Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu yn cael eu diweddaru, gan Gyfarwyddwr Cyllid y Prif Gwnstabl/Prif Swyddog Ariannol SCHTh. Mae hyn er mwyn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth gyfredol ac yn parhau i fod yn addas at y diben. Mae'r CHTh yn monitro cydymffurfedd a chraffu ar y maes polisi hwn drwy fecanweithiau llywodraethu presennol, er enghraifft, drwy'r Fframwaith Llywodraethiant Corfforaethol.

Mae'r polisi hwn wedi'i gyhoeddi ar wefan y Comisiynydd Heddlu a Throseddu, yn ogystal ag ar wefan Heddlu Dyfed-Powys yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Mae adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn amlinellu'r **nodweddion gwarchodedig** sy'n gymwys ar gyfer gwarchod o dan y Ddeddf fel a ganlyn: Oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol.

Mae **dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus** yn gosod gofyniad cyfreithiol rhagweithiol ar gyrff cyhoeddus i ystyried, wrth gyflawni eu swyddogaethau, yr angen i wneud y canlynol:

- dileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth, ac unrhyw ymddygiad arall sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf;
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu;
- meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Mae'r ddyletswydd cydraddoldeb yn berthnasol i bob nodwedd warchodedig ac eithrio priodas a phartneriaeth sifil. Dim ond y ddyletswydd i ystyried yr angen i ddileu gwahaniaethu sy'n berthnasol i'r nodwedd hon.

Mae cynnal **asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb** yn cynnwys asesu'n systematig effeithiau tebygol neu wirioneddol polisïau ar bobl mewn perthynas â'r holl nodweddion gwarchodedig a nodir uchod. Dylid cynnal asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar unrhyw bolisi sy'n **berthnasol** i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae templed asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gael yma.

## ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB WEDI'I GWBLHAU

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Cynghorydd Polisi |
| **Adran:** | Strategaeth a Pholisi, SCHTh |
| **Llofnodwyd:** | G James |
| **Dyddiad:** | 24/04/2026 |

## TYSTYSGRIF CYDYMFFURIO Â'R DDEDDF HAWLIAU DYNOL

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r Ddeddf Hawliau Dynol, ac wedi'i adolygu ar sail ei chynnwys a'r dystiolaeth ategol, a thybir ei fod yn cydymffurfio â'r Ddeddf honno a'r egwyddorion sy'n sail iddi.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Adran:** | Gwasanaethau Cyfreithiol |
| **Llofnodwyd:** |  |
| **Dyddiad:** | 27 Ebrill 2026 |

## TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIO Â'R COD MOESEG

Mae'r polisi hwn wedi'i ddrafftio yn unol â'r cod moeseg, ac wedi'i adolygu ar sail ei gynnwys a'r dystiolaeth ategol, a thybir ei fod yn cydymffurfio â'r cod hwnnw a'r egwyddorion sy'n sail iddo.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Cynghorydd Polisi |
| **Adran:** | Strategaeth a Pholisi, SCHTh |
| **Llofnodwyd:** | G James |
| **Dyddiad:** | 24/04/2026 |

## ADOLYGIAD CYLLID CORFFORAETHOL

Ni fydd unrhyw newidiadau i'r polisi hwn yn golygu unrhyw gost ariannol, ac eithrio'r gost o ddiwygio, gwella neu ffurfioli arferion busnes fel arfer sy'n fforddiadwy ac o fewn y gyllideb. Rhaid trafod unrhyw newidiadau i'r polisi sy'n effeithio ar gost ariannol â'r adran Cyllid Corfforaethol cyn ceisio cymeradwyaeth i'r polisi hwn. Llofnodwch i gadarnhau yr ystyriwyd effaith ariannol y maes polisi hwn, a bod yr adran Cyllid Corfforaethol wedi cael gwybod am unrhyw newid, os ydyw'n berthnasol.

| | |
|---|---|
| **Enw:** | Cynghorydd Polisi |
| **Adran:** | Strategaeth a Pholisi, SCHTh |
| **Llofnodwyd:** | G James |
| **Dyddiad:** | 24/04/2026 |

## Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000

Mae adran 19 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 yn gosod gofyniad ar yr heddlu i gyhoeddi pob polisi ar wefan yr heddlu. Polisïau yw pam yr ydym yn gwneud pethau, a gweithdrefnau yw sut yr ydym yn eu gwneud. Rhaid cynnal adolygiad fesul achos o weithdrefnau i warchod y broses o orfodi'r gyfraith ac ystyriaethau iechyd a diogelwch. Pan fo dogfen bolisi a gweithdrefn gyfun yn cael ei llunio, mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r heddlu gyhoeddi'r adran bolisi, ac asesu'r rhan o'r weithdrefn er mwyn sicrhau nad oes unrhyw wybodaeth sensitif yn cael ei chyhoeddi. Yn gyffredinol, y sefyllfa ddiofyn fydd bod polisi a dogfen weithdrefn ategol yn cael eu cynhyrchu ar wahân.

Mae gofyniad felly i adolygu'r ddogfen hon i gadarnhau ei haddasrwydd i'w chyhoeddi. Nodwch isod a ydyw'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd ai peidio. Pan gredir y bydd datgelu'n niweidiol, gofynnir i chi fynegi'r niwed y byddai cyhoeddi yn ei achosi, ac amlygu'r adrannau perthnasol yn y ddogfen. Pan ganfyddir bod niwed wrth ddatgelu, dylid anfon y ddogfen at yr Uned Ddatgelu i'w hadolygu.

**Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi**

| **Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi** | **Ydyw / Nac ydyw** | **Dyddiad** | **Llofnod** |
|---|---|---|---|
| Mae'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | Ydyw | 19 Mai 2026 | G James |
| Mae'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi'n rhannol. Rwyf wedi nodi'r adrannau hynny nad ydynt yn addas i'w datgelu yn fy marn i, ac rwyf wedi nodi isod y niwed a fyddai'n cael ei achosi o'u cyhoeddi. | | | |

**Amlinelliad o unrhyw niwed a nodwyd o'i chyhoeddi: Amherthnasol**

**Adolygiad rhyddid gwybodaeth – i'w gwblhau gan yr Uned Ddatgelu**

(Dim ond yn angenrheidiol os ydyw'r awdur o'r farn y byddai datgelu'n achosi niwed)

| **Addasrwydd ar gyfer cyhoeddi** | **Ydyw / Nac ydyw** | **Dyddiad** | **Penderfynwr rhyddid gwybodaeth** |
|---|---|---|---|
| Mae'r ddogfen yn addas i'w chyhoeddi yn ei chyfanrwydd | | | |
| Mae'r ddogfen yn addas i'w datgelu'n rhannol, ac mae golygiadau perthnasol wedi'u gwneud. Mae fersiwn wedi'i chreu ar gyfer y cyhoedd. | | | |

Unwaith y bydd adolygiad wedi'i gynnal, dylai'r Swyddog Datgelu Rhyddid Gwybodaeth ddychwelyd y ddogfen at awdur y polisi, ac wedi iddi gael ei chymeradwyo, dylid cyhoeddi'r ddogfen o dan Gynllun Cyhoeddi'r Heddlu.  Dylid dwyn unrhyw newidiadau a wneir i'r ddogfen yn y dyfodol at sylw'r swyddog polisi a'r Uned Ddatgelu, fel y bo'n briodol.

**Manylion rheoli fersiynau llawn**

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Sail resymegol |
|---|---|---|---|
| 1 | 25/06/2026 | G James | Fersiwn gyntaf |
| | | | |
| | | | |